



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Bwletin GwE

Y Daith Diwygio - Sesiwn i Benaethiaid ★NEWYDD★

Hoffai GwE wahodd holl benaethiaid y rhanbarth i'r cyntaf o gyfres o sesiynau fydd yn cael eu cynnal dros y misoedd nesaf ar **22 Ionawr yn Venue Cymru, Llandudno**. Nod y sesiwn fydd i rannu gwybodaeth ac ymgysylltu gyda holl benaethiaid ar yr agenda trawsnewid cenedlaethol – bydd hyn yn cynnwys trafodaethau ar ddiwygio'r cwricwlwm, trawsnewid ADY, datblygiadau asesu ac offeryn hunan-arfarnu ESTYN / OECD.

Bydd y sesiwn yn un rhyngweithiol ble byddwn yn rhannu gwybodaeth ac yn annog trafodaethau ar pa gefnogaeth y gall GwE ei gynnig i ysgolion dros y 2 flynedd nesaf ac yn mha ffurf y dylid cyflwyno'r gefnogaeth er mwyn eich cynorthwyo yn ystod y cyfnod yma o newid.

Yn dilyn y sesiwn gyntaf ar 22 Ionawr 2019, mi fydd cyfres o sesiynau dilynol lleol yn cael eu hwyluso er mwyn trafod ymhellach. Manylion fel â ganlyn:

05/02/2019	Môn a Gogledd Gwynedd
07/02/2019	Sir y Fflint
08/02/2019	De Gwynedd
11/02/2019	Wrecsam
14/02/2019	Conwy
15/02/2019	Sir Ddinbych

Bydd manylion llawn ynghylch y digwyddiadau hyn yn dilyn yn fuan.

**DYDDIAD I'R
DYDDIADUR
Y DAITH DIWYGIO**

Gwybodaeth Bwysig Ynghylch y Profion Cenedlaethol / Asesiadau Personol 2019 ★NEWYDD★

Gweler [yma](#) lythyr yn amlinellu gwybodaeth bwysig ynghylch trefniadau'r Asesiadau Personol a'r Profion Cenedlaethol 2019.

Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fwy ar G6 [<https://g6.gwegogledd.cymru>].

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

★ DIGWYDDIADAU MIS IONAWR ★

HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD
1C Ymsefydlu i ANG [Plas Menai]	08/01/2019	Plas Menai, Caernarfon
CLEAPSS: Cadwch yn Ddiogel! Iechyd a Diogelwch mewn Gwyddoniaeth ymarferol i Athrawon Newydd [Uwchradd - Saesneg]	09/01/2019	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno
<i>Building Skills</i> – Hyfforddiant Therapi Lego	14/01/2019	Glasdir, Llanrwst
1C Ymsefydlu i ANG [Llanelwy]	16/01/2019	OpTIC, Llanelwy
Modelu Effeithiol gan ddefnyddio Taenlenni [Cymraeg, Plas Menai]	16/01/2019	Plas Menai, Caernarfon
Cyfarfod Rhwydwaith Saesneg Uwchradd – 16/1/19 – Venue Cymru, Llandudno	16/01/2019	Venue Cymru, Llandudno
1C Ymsefydlu i ANG [Wrecsam]	17/01/2019	Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
Modelu Effeithiol gan ddefnyddio Taenlenni [Saesneg, Yr Wyddgrug]	17/01/2019	GwE, Linden House, Mold
Datblygu ymhellach strategaethau Dysgu ac Addysgu gan gynnwys Asesu ar Gyfer Dysgu effeithiol. [Cymraeg – Llanrwst]	23/01/2019	Glasdir, Llanrwst
Galar a Phrofedigaeth mewn ysgolion – Profedigaeth Plant y DU	23/01/2019	Venue Cymru, Llandudno
Cymhwysedd Digidol yn y CS [Cymraeg – Plas Menai]	29/01/2019	Plas Menai, Caernarfon
Cymhwysedd Digidol yn y CS [Saesneg – Yr Wyddgrug]	31/01/2019	Linden House, Yr Wyddgrug

Rhaglenni Datblygu GwE

Sesiynau Gwybodaeth CALU [w/c 07/01/2019]

AR GYFER CYMORTHYDDION DYSGU A'U PENNAETH / RHEOLWR

Mae croeso i chi fynychu unrhyw un o'r sesiynau a restrir [yma](#) ar ein gwefan.

★★★ **Nodwch fod y sesiwn yn Swyddfa'r Cyngor Dolgellau ar Ddydd Iau, 10 Ionawr wedi ei ohirio** ★★★

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â: calu@gwegogledd.cymru 01286 679976

Cynhadledd Genedlaethol CALU

DYDD GWENER, 22 CHWFROR 2019 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Cynhelir Cynhadledd CALU genedlaethol ar 22 Chwefror yn Venue Cymru, Llandudno. Bydd dau siaradwr gwadd: yr Athro Mick Waters, awdur arweiniol y Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Cynorthwyo Addysgu a'r Athro Andy Cope, awdur "The Art of Being Crilliant". Nid oes ffi ar gyfer mynychu'r gynhadledd ac ad-delir costau llanw CALU. Mae croeso mawr i Benaethiaid fynychu hefyd.

[COFRESTRWCH TRWY G6.](#)

Cyfarfod Saesneg Uwchradd ★NEWYDD★

DYDD LLUN, 14 IONAWR 2019 – SWYDDFEYDD GWE, BRYN EIRIAS, BAE COLWYN

Cynhelir ail ddiwrnod yr hyfforddiant Datblygu ac Ymestyn Disgyblion Mwy Abl a Thalentog mewn Saesneg ar 14 Ionawr ym Mryn Eirias.

Cysylltwch ag Annalloydwilliams@gwegogledd.cymru os oes gennych gwestiynau pellach.

NRICH: Ydy datblygu Ymresymu Rhifyddol yn flaenoriaeth ysgol? ★NEWYDD★

- Dydd Mawrth, 12 Chwefror 2019 – Tŷ Menai, Bangor
- Dydd Mercher, 13 Chwefror 2019 – Village Hotel [St Davids], Ewloe
- Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2019 – Venue Cymru, Llandudno

Bydd Nrich yn cynnal hyfforddiant un diwrnod 'Ymresymu Myfyriol: o fod yn ddirofiad i fod yn arbenigwr' i athrawon CA2 ar draws y rhanbarth.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

[COFRESTRWCH DRWY G6.](#)

Gwyddoniaeth – Ennyn Diddordeb Dysgwyr [Uwchradd – Dwyieithog – Llandudno]

DYDD MAWRTH, 26 MAWRTH 2019 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Darperir y cwrs hwn gan athrawon Gwyddoniaeth Ysgol Eirias fel rhan o'r Rhaglen Gwyddoniaeth Hwb ar gyfer ysgolion.

[COFRESTRWCH DRWY G6.](#)

Shirley Clarke: Cynhadledd i Benaethiaid

DYDD GWENER, 29 MAWRTH 2019 – 8:50YB-4:00YP – VENUE CYMRU, LLANDUDNO

Cyfle i holl Benaethiaid y rhanbarth gael gwybodaeth uniongyrchol gan Shirley Clarke am ymchwil a datblygiadau ym maes Asesu Ffurfiannol.

[COFRESTRWCH DRWY G6.](#)

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

Gweler isod fanylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich hysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrwydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:

Cynhadledd Estyn: Arloesi'r Cwricwlwm mewn Ysgolion Cynradd

DYDD IAU, 21 CHWFROR 2019 – NEUADD Y DDINAS, CAERDYDD

Mae Estyn yn gwahodd un cynrychiolydd o ysgolion cynradd ac ysgolion pob oed i ymuno â nhw yn eu cynhadledd ym mis Chwefror.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

DYDDIAD CAU COFRESTRU: DYDD IAU, 10 IONAWR 2019.

Croesawu Newid mewn Ysgolion Uwchradd ★★★ DYDDIAD NEWYDD ★★★

DYDD MAWRTH, 19 MAWRTH 2019 – YSGOL UWCHRADD Y FFLINT, Y FFLINT

Ysgol Arloesi Uwchradd yn rhannu'r daith hyd yma wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm Newydd. Cyfle i gael syniadau ymarferol gan gyd-weithwyr sy'n rhan o'r broses.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

I gofrestru, anfonwch e-bost at Jason Newham – jason.newham@flint.flintshire.sch.uk erbyn dydd Gwener, 22 Chwefror 2019.

Llwyddiant Ysgolion GwE ★NEWYDD★

Mae gennym ddiddordeb mawr mewn clywed beth sydd yn digwydd yn eich hysgol chi.

Rydym yn croesawu newyddion, straeon, cyflawniadau neu arferion da i'w rhannu yn ein bwletin wythnosol er mwyn dathlu llwyddiannau disgyblion, athrawon/staff ac ysgolion y rhanbarth.

Anfonwch eich newyddion da i bwletin@gwegogledd.cymru

Ysgol Esgob Morgan, Llanelwy – Sir Ddinbych

Llongyfarchiadau i Ysgol Esgob Morgan ar eu canmoliaeth gan Estyn. Mae safonau yn yr ysgol wedi cynyddu, a gwnaiff y mwyafrif o ddisgyblion gynydd mewn sillafu, darllen a mathemateg. Darllenwch am eu harfer effeithiol [yma](#).

Cystadleuaeth Carol yr Ŵyl 2018

Llongyfarchiadau mawr i **Ysgol Dolbadarn, Llanberis [Gwynedd]** ar ennill Carol yr Ŵyl 2018 ar y rhaglen Prynawn Da, S4C. Llongyfarchiadau hefyd i **Ysgol Pen Barras, Rhuthun [Sir Ddinbych]** ar eu llwyddiant nhw. Gallwch weld y feirniadaeth gyfan a'r garol fuddugol [yma](#) [dolen allanol i Facebook].

Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

Cymwysterau Cymru – Cyfleoedd i Helpu i Lywio Cymwysterau i'r Dyfodol

ASESIAD DI-ARHOLIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn gwahodd athrawon i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws rhwng Ionawr a Mawrth i athrawon drafod eu profiadau o asesiad di-arholiad mewn deg pwnc TGAU gwahanol. I gael rhagor o wybodaeth, neu i gofrestru, cliciwch [yma](#).

Dydd Miwsig Cymru 2019

DYDD GWENER, 8 CHWEFOR 2019

Dydd Gwener 8 Chwefror – dyna'r dyddiad i ddyddiaduron ffans cerddoriaeth Cymru ac ar draws y byd, dyddiad pedwerydd Dydd Miwsig Cymru. Am ragor o fanylion a syniadau [cliciwch yma](#).

Categoreiddio Cenedlaethol 2018-2019

Bydd Categori Cenedlaethol yn parhau ar gyfer 2018-2019. Mae'r [canllawiau atodol](#) yn rhoi cyngor i ysgolion, consortia ac ymgynghorwyr cefnogi gwelliant ar sut y dylid cymhwyso'r dyfarniad mewn perthynas â'r gallu i wella a'r penderfyniad ynghylch y categori cymorth mewn achosion lle y gall bod angen ystyried ffactorau cyd-destunol a ffactorau eraill.

[Cliciwch yma](#) i weld yr amserlen.

Datganiad Ysgrifenedig: Lansio Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft

Mae'r ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig yn fyw.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#). Lleiswch eich barn [yma](#).

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

Rydym wedi diweddarau ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi [yma](#). Rydych wedi tansgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanystrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.

